OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 784 (Cy.70) (C.51)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2009

*Gwnaed - - - - 24 Mawrth 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 173(3) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008(**1**):

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "blwyddyn ysgol" ("*school year*") yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi ac yn dod i ben ar y 31 Awst nesaf;

ystyr "DSFfY 1998" ("*the SSFA 1998*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg a Sgiliau 2008.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mawrth 2009**

**2.** Daw'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf i rym ar 31 Mawrth 2009—

(a) adran 162(1), (2), (3)(a), (3)(b) a (4) i (10).

**3.** Daw'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf i rym, yn ddarostyngedig i erthygl 4, ar 31 Mawrth 2009—

(a) adrannau 150, 152 a 153;

(b) adran 169(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 1 a bennir isod;

(c) adran 169(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Atodlen 2 a bennir isod;

(ch) yn Atodlen 1, paragraffau 54, 55, 59(7), 66 a 67, ac, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny, paragraff 53;

(**1**) 2008 p.25.
(**2**) 1998 p.31.

(d) yn Atodlen 2, y diddymiadau i'r graddau y maent yn ymwneud ag adrannau 86 a 94 o DSFfY 1998.

**4.** Er bod adran 150 yn dod i rym ac er gwaethaf y diwygiadau a'r diddymiadau i adrannau 86 a 94 o DSFfY 1998 a wneir gan adrannau 152 a 169 o'r Ddeddf ac Atodlenni 1 a 2 iddi, bydd adrannau 86 a 94 yn parhau i fod yn gymwys heb y diwygiadau a'r diddymiadau hynny o ran derbyn plant i'r flwyddyn ysgol 2009-2010.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Hydref 2009**

**5.** Daw'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf i rym ar 31 Hydref 2009—

(a) adran 162(3)(c).

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

24 Mawrth 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf i'w wneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn mwyafrif adran 162 o'r Ddeddf i rym ar 31 Mawrth 2009. Mae'n diwygio swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran cymwysterau galwedigaethol ac academaidd allanol o dan adran 30 o Ddeddf Addysg 1997. Mae'n gosod swyddogaethau newydd, sef datblygu a chyhoeddi meini prawf i gydnabod personau sy'n dymuno dyfarnu neu ddilysu cymwysterau a chydnabod personau sy'n gwneud cais am gael eu cydnabod ac sy'n bodloni'r meini prawf. Mae gweddill adran 162 yn cael ei gychwyn gan erthygl 5.

Daw erthygl 3 ag adrannau 150, 152 a 153 o'r Ddeddf i rym ar 31 Mawrth 2009. Maent yn cyflwyno darpariaethau newydd ynghylch dymuniadau o ran addysg chweched dosbarth o'r flwyddyn ysgol 2010-2011 ac yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol eraill ynghylch derbyn plant i ysgolion.

Mae erthygl 4 yn darparu nad yw'r diwygiadau i adrannau 86 a 94 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn effeithio ar dderbyn plant i ysgolion ar gyfer y flwyddyn ysgol 2009-2010.